# SL(6)487 - Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024 ("y Gorchymyn") yn diwygio'r rhestr o awdurdodau Cymreig datganoledig yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") yn darparu ar gyfer diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Mae adran 157A(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn darparu y caiff Ei Fawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ddiwygio'r rhestr yn Atodlen 9A drwy ychwanegu neu ddileu cofnod.

O ganlyniad i Ddeddf 2022, mae'r Gorchymyn yn mewnosod cofnod newydd yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru ar gyfer "The Commission for Tertiary Education and Research or Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil" ac yn hepgor y cofnod presennol o ran "The Higher Education Funding Council for Wales or Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru".

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig. Ni chaniateir gwneud unrhyw argymhelliad i Ei Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor wneud y Gorchymyn oni bai y caiff y drafft ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd a dau Dŷ Senedd y DU.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

Mae'r Gorchymyn yn Saesneg yn unig. Yn ôl paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *Mae'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU, ac felly mae'r Gorchymyn drafft yn cael ei osod yn Saesneg yn unig.*

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r prif nodyn mewn print italig ar frig y Gorchymyn yn darparu y caiff y drafft ei osod gerbron y Senedd o dan adran 157A(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan ddau Dŷ'r Senedd.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru pam nad yw'r prif nodyn yn cyfeirio hefyd at osod y drafft gerbron y Senedd.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd y DU ar 21 Mai 2024.

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog y byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf 2024, cafodd Senedd y DU ei addoedi ar 24 Mai 2024 cyn cael ei diddymu ar 30 Mai 2024. Nid oedd y naill Dŷ na'r llall wedi cymeradwyo'r Gorchymyn drafft cyn y diddymu.

Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol y Gorchymyn drafft, ac arwydd o bryd y gall Senedd y DU ei ystyried yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod efallai na fydd diweddariad o'r fath yn bosibl tan ar ôl yr etholiad cyffredinol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail a'r trydydd pwynt adrodd yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Mehefin 2024**